

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

Peter Fox AS

Aelod Cyfrifol, Bil Bwyd (Cymru)

8 Chwefror 2023

Annwyl Peter,

Bil Bwyd (Cymru)

Diolch i chi am eich llythyr ar ôl i chi ddod i'n cyfarfod Pwyllgor ar 25 Ionawr. Rwy'n gwerthfawrogi eich dull agored, cydweithredol o ddatblygu deddfwriaeth a'ch cynnig i ymgysylltu'n barhaus â'r Pwyllgor. Byddwn yn ychwanegu eich llythyr at agenda ein cyfarfod ar 16 Chwefror fel papur i'w nodi.

Byddwch yn ymwybodol ein bod eisoes wedi eich gwahodd i ddod i ail gyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mawrth. Yn y sesiwn hon, byddwn yn trafod materion a nodwyd gan randdeiliaid a'r Gweinidog fel rhan o'n hymchwiliad i Fil Bwyd (Cymru). Yn y cyfamser, hoffem ddiolch i chi am gynnig cymorth pellach a byddwn yn cysylltu â chi os bydd unrhyw beth brys yn codi.

Cofion,

Paul Davies

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565